



# Ymgynhoriad ar ddarpariaeth teithio llesol

A487 Cylchfan y Faenol

Medi 2024



**Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru**  
**North & Mid Wales Trunk Road Agent**

**Hoffem glywed eich barn ar gynlluniau i wella'r ddarpariaeth gerdded, seiclo ac olwyno ger Cylchfan y Faenol ar yr A487, Bangor.**




# 1 Trosolwg

Mae Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (NMWTRA), sy'n gweithio ar ran Llywodraeth Cymru, yn ymgynghori ar gynigion i'w gwneud yn fwy diogel, yn haws ac yn fwy cyfleus i bobl gerdded, olwyno a beicio ger Cylchfan y Faenol ar yr A487. Mae Mott MacDonald a Chyngor Gwynedd yn cefnogi NMWTRA i gyflawni'r cynllun hwn. Mae'r cynllun wedi bod datblygwyd yn fanylach yn dilyn ymgynghoriad blaenorol â rhanddeiliaid allweddol.

Nod y cynllun hwn yw gwella'r seilwaith teithio llesol ar Gylchfan y Faenol ac ar ffyrdd dynesu'r B4547 a'r A487 Allt y Faenol. Dangosir y maes diddordeb isod.

Bydd y cynllun yn cwblhau cyswllt coll yn y rhwydwaith lleol, gan ddarparu gwell mynediad i lwybrau presennol megis Lôn Las Menai, Lôn Adda a Ffordd Penrhos.

Mae'r tudalen we hon yn rhoi manylion y cynllun a sut i roi adborth. Rydym yn croesawu pob adborth a byddwn, lle bo'n ymarferol, yn ymgorffori unrhyw awgrymiadau.



## Cyd-destun ehangach

Mae'r cynllun hwn yn rhan o uchelgeisiau NMWTRA, Llywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd i wella cerdded, olwyno a seiclo ar gyfer teithiau bob dydd. Bydd darparu'r cyfleusterau hyn yn helpu i wella dewis a mynediad i gyfleoedd i bawb. Yng nghyd-destun newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng ecolegol, mae'n bwysicach nag erioed bod pobl yn teimlo y gallant gael mynediad i ddulliau teithio mwy cynaliadwy.

## 2 Ynglŷn â'r cynllun hwn

Gwyddom fod pobl eisoes yn cerdded a beicio drwy'r ardal hon i leoedd fel Bangor a'r Felinheli ac yn ôl. Ond rydym wedi cael gwybod bod y croesfannau presennol ar Gylchfan y Faenol yn anniogel, a bod y llwybr cerdded a beicio ar Allt y Faenol yn rhy gul. Mae hyn yn rhoi cerddwyr a beicwyr mewn perygl, ac yn atal eraill a hoffai gerdded, olwyno a beicio mwy.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rydym yn cynnig gwelliannau graddol:

### Cam 1 (a gyflewnir o 2025)

Gosod goleuadau ar ganghennau A487 (T) a'r A487 (Allt y Faenol) y gylchfan, gyda chroesfannau Twcan dros ganghennau allanfa a mynediad y gangen ogleddol

Gostyngiad terfyn cyflymder lleol o 60mya i 50mya ar bob dynesfa i Gylchfan y Faenol

Ehangu'r llwybr defnydd a rennir ar y B4547 sy'n cysylltu â'r gylchfan



### Cam 2 (i'w gyflwyno'n ddiweddarach)

Ehangu'r llwybr defnydd a rennir ar Allt y Faenol cyn belled â chyffordd Ffordd Penrhos. Bydd hyn yn cynnwys llain ymyl i wahanu'r llwybr yn ddiogel oddi wrth y gerbyttfordd

Gwelliannau i gyffordd Ffordd Penrhos a fydd yn cysylltu â chynllun teithio llesol parhaus sy'n cael ei adeiladu ar Ffordd Penrhos

Rydym yn cydnabod y gallai gosod signalau ar rai canghennau o'r gylchfan fod yn destun pryder i yrwyr. Rydym wedi profi effeithiau hyn gyda meddalwedd modelu trafndiaeth. Canfu'r dadansoddiad hwn y gallai signalau helpu i reoli llif traffig prysur yn well, gan ei gwneud yn fwy diogel ac yn haws i gerbydau fynd i mewn i'r gylchfan o'r B4547 a'r A4087 (a fydd yn parhau i fod heb eu rheoli).

### 3 Lluniau cynllun

Dangosir darluniau cynllun manylach isod. Os ydych yn cael trafferth darllen neu gael mynediad at y cynlluniau, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion ar ddiwedd y ddogfen hon.

**Gweledol 1**



**Gweledol 2**





## 4 Lleisiwch eich barn

Byddem wrth ein bodd yn clywed eich adborth ar y cynlluniau ac atebion i'r cwestiynau canlynol.

- Beth ydych chi'n ei hoffi am y cynllun?
- A oes gennych unrhyw bryderon am y cynllun?
- A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar sut y gallem wella'r cynllun?

Rhowch adborth gan ddefnyddio unrhyw un o'r opsiynau isod. Gofynnwn i adborth gael ei ddychwelyd erbyn **10 Hydref 2024**.

Ar-lein [Ymgynghoriad darpariaethau Teithio Llesol A487 Cylchfan y Faenol, Bangor \(llyw.cymru\)](#)

Trwy e-bost [A487Faenol@mottmac.com](mailto:A487Faenol@mottmac.com)

Trwy'r post  
Mott MacDonald  
2 Sgwâr Callaghan  
Caerdydd CF10 5BT  
Y Deyrnas Unedig

### Datganiad ar Reoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

Rydym yn defnyddio dull cadarn o reoli gwybodaeth a dderbynnir gan bob parti. Mae gennym ystod eang o systemau a phrosesau ardystiedig sydd wedi'u hen sefydlu i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Rydym yn dilyn protocolau Diogelu Data ISO27001 drwy BMS i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion GDPR, yn storio data'n ddiogel, ac yn cynnal cyfrinachedd lle bo angen. Mae holl wybodaeth ddigidol y prosiect yn cael ei storio mewn manau rhannu ffeiliau diogel fel SharePoint a ProjectWise, gyda mynediad i'r rhai o fewn tîm y prosiect yn unig. Mae'r offer hyn hefyd yn cefnogi rhannu dogfennau mawr yn ddiogel ar-lein gyda chleientiaid.

Pan fydd gwybodaeth bersonol yn cyrraedd diwedd ei chyfnod cadw dynodedig ac nad oes ei hangen mwyach at ddiben busnes cyfreithlon, caiff ei dileu neu ei dinistrio'n ddiogel. Mae ein holl systemau'n ymgorffori'r swyddogaethau sydd eu hangen i ddileu gwybodaeth bersonol yn ddiogel yn unol â chyfnodau cadw y cytunwyd arnynt ymlaen llaw.

Rydym yn defnyddio darparwr gwasanaeth allanol i reoli'r gwaith o lanhau a dinistrio cyfryngau storio digidol darfodedig neu ddiffygiol sy'n eiddo i Mott MacDonald. Darperir tystysgrifau dinistrio i ddangos bod y broses ddinistrio wedi'i chwblhau. Mae'r cyflenwr wedi'i achredu o dan Raglen Ardystio AAA NAID.

Mae cofnodion copi caled (h.y. papur) sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol naill ai'n cael eu dinistrio gan ddefnyddio peiriannau rhwygo gradd masnachol yn ein swyddfeydd neu'n cael eu casglu gan ddarparwr gwasanaeth allanol mewn cynwysyddion wedi'u selio cyn eu cludo'n ddiogel i'w safle i'w dinistrio.



[mottmac.com](http://mottmac.com)